# SL(5)657 – Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") yn cael eu gwneud o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Diben y Rheoliadau yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol unwaith y bydd y DU yn gadael yr UE.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Mae Rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau 2019, sydd yn eu tro yn diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 er mwyn cywiro gwall mewn cyfeiriadau.

Mae Rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau 2019, sydd yn eu tro yn diwygio Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016 ("Rheoliadau 2016"). Bydd y cynllun a chyllid Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn parhau i gael eu llywodraethu gan yr UE hyd nes y bydd y rhaglenni a'r gweithgareddau hynny'n cau, fel y nodir yn Erthygl 138 o'r Cytundeb Ymadael. Bydd cyfraith berthnasol yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn berthnasol yn uniongyrchol yn y DU ac ni fydd yn dod yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir, o ganlyniad i adran 7A ac adran 3(2)(bi) o Ddeddf Ymadael â'r UE 2018, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr UE (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Gwneir diwygiadau, felly, i Reoliadau 2019, sy'n ymwneud â Rheoliadau 2016, i adlewyrchu'r sefyllfa bod deddfwriaeth yr UE y cyfeirir ati yn Rheoliadau 2016 yn cael effaith yn rhinwedd y Cytundeb Ymadael, a Deddf yr UE (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym yn union cyn Diwrnod Cwblhau'r Cyfnod Gweithredu am 11.00 o'r gloch ar 31 Rhagfyr 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor ar 9 Tachwedd 2020, mai'r weithdrefn negyddol oedd y weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ar wahân i'r rheini a nodir uchod, ni nodwyd unrhyw oblygiadau eraill i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**16 Tachwedd 2020**